YSTADEGAU, DOGFENNU

# Staff a gyflogir yn uniongyrchol gan y GIG: ar 31 Mawrth 2024

Data am staff meddygol, deintyddol, nyrsio a bydwreigiaeth, ar 31 Mawrth 2024.

**Cyhoeddwyd gyntaf:** 17 Gorffennaf 2024

**Diweddarwyd ddiwethaf:** 17 Gorffennaf 2024

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/staff-gyflogir-yn-uniongyrchol-gan-y-gig-ar-31-mawrth-2024-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

# Cynnwys

Cyflwyniad

Prif bwyntiau

Crynodeb o staff a gyflogir yn uniongyrchol

Gwybodaeth am ansawdd a methodoleg

Manylion cyswllt

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/staff-gyflogir-yn-uniongyrchol-gan-y-gig-ar-31-mawrth-2024-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

# Cyflwyniad

Mae'r datganiad ystadegol hwn yn darparu ystadegau cryno ar staff a gyflogir yn uniongyrchol gan GIG Cymru ac yn canolbwyntio ar nifer y staff cyfwerth ag amser llawn a gyflogir ar ddiwrnod olaf y chwarter diweddaraf sydd ar gael. Mae'r datganiad yn cynnwys dadansoddiadau yn ôl grwp staff ar lefel Cymru. **Cyhoeddir data sydd wedi'u categoreiddio fesul cod galwedigaethol a sefydliadau'r GIG ar StatsCymru**.

Daw'r ystadegau o Gofnod Staff Electronig y GIG, a ddarperir gan Addysg a Gwella Iechyd Cymru. Mae niferoedd staffio yn cael eu mesur orau drwy ddefnyddio data cyfwerth ag amser llawn (FTE) gan fod FTE yn cyfrif am weithio'n rhan-amser. Mae un FTE yn gyfwerth â pherson yn gweithio'r oriau safonol ar gyfer eu gradd (fel arfer 37.5 awr yr wythnos) a ceir mwy o fanylion yn yr **adroddiad ansawdd**. Mae cyfanswm niferoedd y staff ('cyfrif pennau') hefyd yn cael eu cyhoeddi ar StatsCymru ac fe'u defnyddir ar gyfer **dadansoddi nodweddion staff (StatsCymru)** yn y datganid ystadegol blynyddol.

Nid yw data'r gweithlu ar gyfer gwasanaethau gofal sylfaenol fel **ymarferwyr meddygol cyffredinol (StatsCymru)** ac **ymarferwyr deintyddol y GIG (StatsCymru)** wedi'u cynnwys yn y datganiad hwn ac fe'u cyhoeddir ar wahân gan eu bod yn gontractwyr GIG annibynnol.

# Prif bwyntiau

Rhwng 31 Mawrth 2023 a 31 Mawrth 2024, o ran niferoedd cyfwerth ag amser llawn:

- Cynyddodd cyfanswm nifer y staff 2,844 (3.0%) i 97,061.
- Cynyddodd nifer y staff meddygol a deintyddol 336 (4.3%) i 8,250.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/staff-gyflogir-yn-uniongyrchol-gan-y-gig-ar-31-mawrth-2024-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

- Cynyddodd nifer y staff nyrsio, bydwreigiaeth ac ymwelwyr iechyd 1,597 (4.3%) i 38,820.
- Cynyddodd nifer y staff gwyddonol, therapiwtig a thechnegol 531 (3.2%) i 17,033.
- Cynyddodd nifer y staff gweinyddiaeth ac ystadau 536 (2.3%) i 24,029.
- Gostyngodd nifer y staff ambiwlans 44 (1.5%) i 2,986.
- Gostyngodd nifer y cynorthwywyr gofal iechyd a staff cymorth eraill 114 (1.9%) i 5,825.
- Cynyddodd nifer y staff eraill 2 (1.4%) i 118.

Cynyddodd cyfanswm nifer y staff 3,183 (2.9%) i 112,105.


**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/staff-gyflogir-yn-uniongyrchol-gan-y-gig-ar-31-mawrth-2024-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

## Crynodeb o staff a gyflogir yn uniongyrchol

### Ffigur 1: Nifer y staff cyfwerth ag amser llawn a gyflogir yn uniongyrchol gan GIG Cymru ar 31 Mawrth, 2019 i 2024




Disgrifiad o Ffigur 1: Siart linell yn dangos bod nifer y staff cyfwerth ag amser llawn wedi cynyddu pob blwyddyn ers 2019.


Ffynhonnell: Cofnod Staff Electronig, Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC)

Crynodeb o staff y GIG yn ôl grŵp staff a blwyddyn ar StatsCymru

Mae cyfanswm y staff cyfwerth ag amser llawn a gyflogir yn uniongyrchol gan y GIG wedi cynyddu dros y tymor hir gyda 21.2% yn fwy o staff ym mis Mawrth 2024 nag oedd ym mis Mawrth 2019.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/staff-gyflogir-yn-uniongyrchol-gan-y-gig-ar-31-mawrth-2024-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

## Ffigur 2: Nifer y staff cyfwerth ag amser llawn a gyflogir yn uniongyrchol gan GIG Cymru ar 31 Mawrth 2023 a 2024, yn ôl grŵp staff




Disgrifiad o Ffigur 2: Siart far sy'n dangos bod y grŵp nyrsio, bydwreigiaeth ac ymwelwyr iechyd yn parhau i fod y grŵp staff mwyaf gyda 40% o gyfanswm y gweithlu ym mis Mawrth 2024. Mae nifer y staff cyfwerth ag amser llawn ar gyfer pob grŵp, ac eithrio'r grwpiau staff ambiwlans a chynorthwywyr gofal iechyd a staff cefnogol eraill, wedi cynyddu ers 31 Mawrth 2023.

Ffynhonnell: Cofnod Staff Electronig, Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC)

### Crynodeb o staff y GIG yn ôl grŵp staff a blwyddyn ar StatsCymru

Y cynnydd blynyddol mewn staff cyfwerth ag amser llawn rhwng mis Mawrth

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/staff-gyflogir-yn-uniongyrchol-gan-y-gig-ar-31-mawrth-2024-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

2023 a mis Mawrth 2024 oedd 3.0%. Roedd y newid yn nifer y staff cyfwerth ag amser llawn yn amrywio o gynnydd o 4.3% yn nifer y staff meddygol, a staff nyrsio, bydwreigiaeth ac ymwelwyr iechyd, i ostyngiad o 1.9% yn nifer y cynorthwywyr gofal iechyd a staff cefnogol eraill.

## Gwybodaeth am ansawdd a methodoleg

Ffynhonnell y data yw Cofnod Staff Electronig y GIG a ddarperir gan Addysg a Gwella Iechyd Cymru. Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn yr **adroddiad ansawdd**.

Mae gan nifer y staff a gyflogir yn uniongyrchol gan y GIG rai patrymau tymhorol, sy'n gysylltiedig ag amseroedd penodol yn y flwyddyn pan fydd modd recriwtio staff newydd gymhwyso i rolau parhaol. O'r herwydd, gwneir cymariaethau â'r un chwarter o'r flwyddyn flaenorol.

Mae'r canrannau yn y datganiad hwn wedi'u talgrynnu i'r 0.1 agosaf. Mae newidiadau pwynt canran yn cael eu cyfrifo yn seiliedig ar y niferoedd heb eu talgrynnu.

Mae data am **Absenoldeb oherwydd salwch yn y GIG** a **swyddi gwag yng NGIG Cymru** yn cael eu cyhoeddi bob chwarter. Sylwch fod mân wahaniaethau yn y ffordd y mae grwpiau staff yn cael eu diffinio rhwng datganiadau. Manylir ar y rhain yn yr **adroddiad ansawdd**.

Ceir manylion llawn o faterion yn ymwneud ag ansawdd data wedi eu hadnabod yn y data dros y blynyddoedd diwethaf yn yr **adroddiad ansawdd**.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/staff-gyflogir-yn-uniongyrchol-gan-y-gig-ar-31-mawrth-2024-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

## Datganiad o gydymffurfiaeth â'r Cod Ymarfer ar gyfer Ystadegau

Mae ein hymarfer ystadegol yn cael ei reoleiddio gan y Swyddfa Rheoleiddio Ystadegau (OSR). OSR sy'n gosod y safonau o ran dibynadwyedd, ansawdd a gwerth yn y Cod Ymarfer ar gyfer Ystadegau y dylai pob cynhyrchydd ystadegau swyddogol gydymffurfio â nhw.

Mae ein holl ystadegau yn cael eu cynhyrchu a'u cyhoeddi yn unol â nifer o ddatganiadau a phrotocolau i wella dibynadwyedd, ansawdd a gwerth. Mae'r rhain wedi'u nodi yn **Natganiad Cydymffurfiaeth** Llywodraeth Cymru. Mae'r ystadegau swyddogol hyn yn dangos y safonau a ddisgwylir o ran dibynadwyedd, ansawdd a gwerth cyhoeddus yn y ffyrdd canlynol.

### Dibynadwyedd

Caiff detholiad ei lawrlwytho'n chwarterol o Warws Data y Cofnod Staff Electronig (ESR) sy'n rhoi manylion ar gyfer pob aelod o staff y GIG yng Nghymru ar yr ESR ar ddiwrnod olaf y chwarter. Cyflwynir data gan Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC) ar daenlenni Excel drwy Objective Connect, offeryn ar y we i rannu a derbyn ffeiliau yn ddiogel.

Lluniwyd y ffigurau a gyhoeddwyd gan ddadansoddwyr proffesiynol gan ddefnyddio'r data diweddaraf sydd ar gael a chymhwyso dulliau gan ddefnyddio eu barn broffesiynol a'u sgiliau dadansoddi.

Cyhoeddir yr ystadegau hyn ymlaen llaw ar **adran Ystadegau ac Ymchwil** gwefan Llywodraeth Cymru. Cyfyngir mynediad at y data wrth brosesu i'r rhai sy'n ymwneud â chynhyrchu'r ystadegau, sicrhau ansawdd ac at ddibenion gweithredol. Cyfyngir mynediad cyn rhyddhau'r ystadegau i dderbynwyr cymwys yn unol â'r **Cod Ymarfer (Awdurdod Ystadegau'r DU)**.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/staff-gyflogir-yn-uniongyrchol-gan-y-gig-ar-31-mawrth-2024-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

## Ansawdd

Caiff ein hystadegau eu cynhyrchu i safonau proffesiynol uchel ac fe’u cynhyrchir heb unrhyw ymyrraeth wleidyddol.

Mae ystadegwyr Llywodraeth Cymru yn cynnal gwiriadau dilysu, ac mae ymholiadau'n cael eu cyfeirio at AaGIC a sefydliadau GIG eraill lle bo angen. Mae staff wedi'u grwpio yn seiliedig ar god galwedigaeth o fewn ESR, ac mae data a gyhoeddir yn cyd-fynd â'r prif grwpiau y cyfeirir atynt yn y **Llawlyfr Codau Galwedigaethau’r GIG**.

Mae’r datganiad ystadegol yn cael ei gymeradwyo gan uwch ystadegwyr cyn ei gyhoeddi. Cyhoeddir data yn unol â **datganiad ar gyfrinachedd a mynediad data** bob chwarter.

Gan fod ESR yn system fyw a bod rhannau o ddata'n cael eu cymryd ohono, gellir diwygio’r data a gyflwynir mewn rhifynnau o'r datganiad ystadegol yn y dyfodol. Dros y blynyddoedd diwethaf mae nifer o broblemau wedi'u canfod gydag ansawdd y data. Mae rhai problemau wedi cael eu datrys. Er mwyn helpu defnyddwyr i ddehongli'r data hynny a deall ble allai cyfyngiadau fodoli, mae disgrifiad mwy clir yn yr **adroddiad ansawdd**.

## Gwerth

Pwrpas y datganiad ystadegol hwn yw rhoi gwybod i ddefnyddwyr am lefelau staffio yng NGIG Cymru. Cyhoeddir y wybodaeth hon ochr yn ochr â data am **absenoldeb oherwydd salwch yn y GIG** a **swyddi gwag yng NGIG Cymru** i roi darlun mwy cyflawn o weithlu’r staff a gyflogir yn uniongyrchol gan GIG Cymru.

Cyhoeddir ystadegau yn chwarterol gydag oedi o dri mis rhwng cyfnod cyfeirio'r

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/staff-gyflogir-yn-uniongyrchol-gan-y-gig-ar-31-mawrth-2024-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

ystadegau diweddaraf a chyhoeddi. Cyhoeddir yr ystadegau gyda dadansoddiad a sylwebaeth fer, yn ogystal â thablau fformat data agored a gyhoeddir ar **StatsCymru**. Cyhoeddir datganiad ystadegol manylach ar gyfer data fel ar 30 Medi bob blwyddyn.

Mae croeso ichi gysylltu â ni yn uniongyrchol os oes gennych unrhyw sylwadau ynghylch sut rydym yn bodloni'r safonau hyn. Fel arall, gallwch gysylltu â'r OSR drwy e-bostio **regulation@statistics.gov.uk** neu drwy fynd i'w gwefan.

## Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 yn ymwneud â gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae'r Ddeddf yn rhoi saith nod llesiant ar waith ar gyfer Cymru. Mae'r rhain er mwyn sicrhau Cymru fwy cyfartal, llewyrchus, cydnerth, iach a chyfrifol ar lefel fyd-eang, gyda chymunedau cydlynus a diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu. O dan adran 10(1) o'r Ddeddf, rhaid i Weinidogion Cymru (a) gyhoeddi dangosyddion ("dangosyddion cenedlaethol") y mae rhaid eu defnyddio ar gyfer mesur cynnydd tuag at gyflawni'r nodau llesiant, a (b) gosod copi o'r dangosyddion cenedlaethol gerbron Senedd Cymru. O dan adran 10(8) o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, pan fo Gweinidogion Cymru yn diwygio'r dangosyddion cenedlaethol, rhaid iddynt, cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol (a) gyhoeddi'r dangosyddion fel y'u diwygiwyd a (b) gosod copi ohonynt gerbron y Senedd. Gosodwyd y dangosyddion cenedlaethol hyn gerbron y Senedd yn 2021. Mae'r dangosyddion a osodwyd ar 14 Rhagfyr 2021 yn disodli'r set a osodwyd ar 16 Mawrth 2016.

Mae gwybodaeth am y dangosyddion, ynghyd â naratif ar gyfer pob un o'r nodau llesiant a'r wybodaeth dechnegol gysylltiedig, ar gael yn **adroddiad Llesiant Cymru**.

Gwybodaeth bellach am **Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru)**

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/staff-gyflogir-yn-uniongyrchol-gan-y-gig-ar-31-mawrth-2024-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

2015.

Gallai'r ystadegau sydd wedi'u cynnwys yn y datganiad hwn hefyd ddarparu naratif ategol i'r dangosyddion cenedlaethol a gallai byrddau gwasanaethau cyhoeddus eu defnyddio mewn perthynas â'u hasesiadau llesiant lleol a'u cynlluniau llesiant lleol.

## Manylion cyswllt

Ystadegydd: Bethan Sherwood
E-bost: **ystadegau.iechyd@llyw.cymru**

Cyfryngau: 0300 025 8099

SFR 56/2023

**Efallai na fydd y ddogfen hon yn hollol hygyrch.**
Drllenwch ein **datganiad hygyrchedd** i gael rhagor o wybodaeth.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/staff-gyflogir-yn-uniongyrchol-gan-y-gig-ar-31-mawrth-2024-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.